# Cronfa Bensiwn Dyfed

## Polisi Gwrthdaro Buddiannau

Mehefin 2025



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys

Cyflwyniad .......... 2
Amcanion .......... 2
Cyfrifoldeb .......... 2
Gweithdrefn Weithredol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd .......... 3
Gweithdrefn Weithredol ar gyfer Swyddogion .......... 3
Gweithdrefn Weithredol ar gyfer Ymgynghorwyr .......... 4
Adolygu .......... 4
Hyfforddiant .......... 4
Polisi Gwrthdaro Buddiannau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) .......... 4
Adolygiad o'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau .......... 4
Gwybodaeth Gyswllt .......... 5

## Cyflwyniad

Dyma Bolisi Gwrthdaro Buddiannau Cronfa Bensiwn Dyfed, sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Sir Caerfyrddin (yr "Awdurdod Gweinyddu"). Mae'r polisi yn egluro sut mae achosion o wrthdaro buddiannau yn cael eu nodi a'u rheoli gan y rhai sy'n ymwneud â rheoli a llywodraethu'r Gronfa.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r pwyllgor pensiwn, y bwrdd pensiwn, swyddogion ac ymgynghorwyr allanol mewn perthynas â'r dyletswyddau y maent yn eu cyflawni ar gyfer y Gronfa.

I gefnogi trefniadau llywodraethu da, mae'n bwysig nodi mewn polisi, fel hwn, sut y dylid rheoli gwrthdaro neu wrthdaro posibl.

Mae'r Gronfa wedi mabwysiadu diffiniad o wrthdaro buddiannau sy'n cynnwys gwrthdaro buddiannau posibl, tybiedig a gwirioneddol. Mae'r Gronfa yn deall na fydd efallai'n bosibl nodi, rheoli a monitro pob gwrthdaro buddiannau posibl a thybiedig; fodd bynnag, bydd yn ymdrechu i wneud hynny lle bynnag y modd.

Mae'r Gronfa wedi mabwysiadu diffiniad Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 o wrthdaro buddiannau, sy'n nodi bod gwrthdaro buddiannau yn golygu buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o niweidio gallu unigolyn i gyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Gronfa yn cydnabod bod methu â rheoli gwrthdaro buddiannau yn peri risgiau sylweddol. Gall y canlyniadau gynnwys penderfyniadau nad ydynt er budd pennaf rhanddeiliaid y Gronfa, effaith negyddol ar enw da'r Gronfa a/neu atgyfeirio at gyrff rheoleiddio.

## Amcanion

Wrth baratoi'r polisi hwn, amcanion y Gronfa yw:

- arddangos ei hymrwymiad i nodi, rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau.
- glynu at gred y Gronfa y bydd llywodraethu da a thryloywder yn sicrhau gwell canlyniadau i randdeiliaid.
- cefnogi fframwaith gwneud penderfyniadau a llywodraethu'r Gronfa.

Mae nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau posibl a gwirioneddol yn rhan annatod o gyflawni ein hamcanion llywodraethu.

## Cyfrifoldeb

Fel Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed, mae'n rhaid i ni fod yn fodlon bod achosion o wrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli'n briodol. At y diben hwn, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r unigolyn dynodedig ar gyfer sicrhau bod y weithdrefn isod yn cael ei rhoi ar waith.

Fodd bynnag, cyfrifoldeb pob unigolyn y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddo yw nodi unrhyw achosion posibl lle gallai ei fuddiannau personol, ariannol neu fusnes neu fuddiannau eraill wrthdaro â'i ddyletswyddau o ran y gronfa bensiwn.

## Gweithdrefn Weithredol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd

Rhaid i'r weithdrefn ganlynol gael ei dilyn gan aelodau'r pwyllgor a'r bwrdd. Fodd bynnag, dylid nodi bod dyletswydd ar gynghorwyr hefyd i ddilyn Côd Ymddygiad Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer yr Aelodau a chydymffurfio â gofynion y côd hwnnw.

**Cam penodi:** Nodi buddiannau i ddechrau sy'n arwain at wrthdaro neu a allai arwain at wrthdaro.

**Monitro parhaus:** Ar ddechrau unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor pensiwn neu'r bwrdd pensiwn neu gyfarfod ffurfiol arall lle bydd materion perthnasol yn cael eu trafod, bydd y Cadeirydd yn gofyn i bawb sy'n bresennol y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt ddatgan unrhyw wrthdaro posibl newydd. Bydd hyn yn eitem ar yr agenda, a bydd unrhyw achosion o wrthdaro yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod ac yng nghofrestr gwrthdaro buddiannau'r Gronfa.

**Adolygiad cyfnodol:** O leiaf unwaith bob 12 mis, bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn rhoi i'r holl unigolion y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt gopi o'u hachosion o wrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r Gronfa a ddatganwyd ar hyn o bryd. Bydd pob unigolyn yn cadarnhau bod ei wybodaeth yn gywir neu'n tynnu sylw at unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud.

Lle bo'n briodol, os nodir gwrthdaro newydd, rhaid rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro fel y gellir gofyn am gyngor a chymryd unrhyw gamau perthnasol.

## Gweithdrefn Weithredol ar gyfer Swyddogion

Mae'n ofynnol i swyddogion gydymffurfio â Chôd Ymddygiad Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Swyddogion (fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa). Fel rhan o hyn, yn gyfnodol mae'n ofynnol i swyddogion ddatgan unrhyw fuddiannau anariannol neu ariannol a allai arwain at wrthdaro â buddiannau'r Cyngor.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i swyddogion sy'n gwerthuso cyflwyniadau caffael lenwi ffurflen datgan gwrthdaro buddiannau.

Lle bo'n briodol, os nodir gwrthdaro newydd, rhaid rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro fel y gellir gofyn am gyngor a chymryd unrhyw gamau perthnasol.

## Gweithdrefn Weithredol ar gyfer Ymgynghorwyr

Disgwylir i ymgynghorwyr y Gronfa feddu ar eu polisïau eu hunain ar sut y bydd achosion o wrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli yn eu perthnasoedd â'u cleientiaid.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr i'r Gronfa ddatgelu unrhyw wrthdaro buddiannau a allai godi, gan gynnwys unrhyw ymrwymiadau trydydd parti cysylltiedig.

Bydd pob gwrthdaro posibl neu wirioneddol a nodir gan ymgynghorwyr yn cael ei gofnodi yng nghofrestr gwrthdaro buddiannau'r Gronfa.

## Adolygu

Ar ôl nodi unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau, bydd y Gronfa yn cynnal proses werthuso. Bydd y broses werthuso yn asesu difrifoldeb posibl yr effeithiau os nad yw'r achos o wrthdaro dan sylw yn cael ei reoli'n briodol. Yn dilyn y broses werthuso, bydd y Gronfa yn dosbarthu'r achos o wrthdaro yn seiliedig ar ei fath a'i ddifrifoldeb o ran yr effaith bosibl.

## Hyfforddiant

Mae'r Gronfa yn cydnabod bod hyfforddiant ac addysg yn hanfodol wrth gyflawni canlyniadau da a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn ymgymryd â hyfforddiant ac addysg reolaidd ar nodi, rheoli a monitro gwrthdaro buddiannau. Un o'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â rhoi'r polisi hwn ar waith yn llwyddiannus yw bod gan aelodau neu swyddogion y pwyllgor pensiwn a'r bwrdd pensiwn y wybodaeth angenrheidiol i nodi a datgan achosion o wrthdaro buddiannau yn effeithiol.

## Polisi Gwrthdaro Buddiannau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

Gallai achos o wrthdaro buddiannau godi mewn perthynas â chyfuno buddsoddiadau. Fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, mae'r Cyngor yn un o Awdurdodau Cyfansoddol PPC.

Mae'r rhan fwyaf o asedau'r Gronfa bellach naill ai o dan reolaeth cronfeydd cyfunol neu wedi'u cyfuno â PPC. Mae Cadeirydd y pwyllgor pensiwn yn aelod o Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC ac mae uwch-swyddogion y Gronfa sy'n aelodau o'r Gweithgor Swyddogion. Yr Awdurdod Gweinyddu yw Awdurdod Cynnal PPC hefyd, felly mae'n bosibl y bydd achosion o wrthdaro yn codi gan fod swyddogion yn ymwneud â rheoli'r Gronfa, PPC a'r Awdurdod Gweinyddu.

Rhaid i unigolion sy'n ymwneud â rheoli PPC hefyd gydymffurfio â Pholisi Gwrthdaro Buddiannau PPC ac unrhyw bolisïau perthnasol sy'n cael eu rhoi ar waith gan yr Awdurdod Gweinyddu.

## Adolygiad o'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol a'i ddiweddaru'n ffurfiol o leiaf bob tair blynedd. Disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gwblhau yn 2028 oni bai bod materion yn codi sy'n gofyn i'r polisi gael ei adolygu'n gynharach.

## Gwybodaeth Gyswllt

| | |
|---|---|
| E-bost | pensiynau@sirgar.gov.uk |
| Ffôn | 01267 224 893 |
| Cyfeiriad | Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Neuadd y Sir<br>Caerfyrddin<br>SA31 1JP |